

No.

## CABINET

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 16 Chwefror, 2023

Mae'r Agenda ar gael [yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar gael [yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd L. Burnett (Cadeirydd); Cynghorwyr R.M. Birch, B.E. Brooks, G. John, S. Sivagnanam, E. Williams a M.R. Wilson.

Hefyd yn bresennol: Cynghorydd A. Asbrey, C.E.A. Champion, C.P. Franks, Dr.I.J. Johnson a N.C. Thomas

### **C218 CYHOEDDIAD -**

Croesawodd yr Arweinydd bawb i gyfarfod y Cabinet ac atgoffodd bawb a oedd yn bresennol fod y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio ar y rhyngwrdd a bod y recordiad hwn yn cael ei archifo i'w weld yn y dyfodol.

Gofynnodd i'r holl gyfranogwyr ddiffodd eu meicroffonau pan nad oeddent yn siarad er mwyn osgoi unrhyw sŵn cefndir pan oedd cyfranogwyr eraill yn siarad, a phe bai cyfranogwr yn dymuno siarad, a allai roi ei law i fyny (i'w gweld ar y sgrin) neu ddefnyddio'r swyddogaeth codi llaw.

Gofynnwyd i'r aelodau sicrhau bod pob dadl yn cael ei chodi ar lafar ac nid drwy'r swyddogaeth 'sgwrs' er mwyn y recordiad. Gellid defnyddio'r swyddogaeth 'sgwrs' i dynnu sylw at unrhyw fater technegol a/neu i gael sylw'r Cadeirydd neu'r Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

### **C219 YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB –**

Derbyniwyd hwn gan y Cynghorydd M.R. Wilkinson.

### **C220 COFNODION –**

Cyfeiriodd yr Arweinydd at gywiriad angenrheidiol i Gofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Chwefror 2023, lle dylai fod adran yn dilyn C204 yn nodi y cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 19 Ionawr 2023 yn gofnod cywir.

PENDERFYNWYD – BOD cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Chwefror 2023 yn cael eu cymeradwyo fel cofnod cywir yn amodol ar newid y cofnodion cyhoeddedig i gynnwys y cyfeiriad bod cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 19 Ionawr 2023 wedi'u cymeradwyo fel cofnod cywir.

No.

## **C221 DATGANIADAU BUDDIANT –**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

## **C222 CYNLLUN CYFLAWNI BLYNYDDOL DRAFFT CYNGOR BRO MORGANNWG 2023-24 (CYF) –**

Yn dilyn y drafodaeth a gafwyd yn y cyfarfod, dywedodd yr Arweinydd nad oedd unrhyw argymhellion wedi'u hanfon ymlaen at y Cabinet i'w hystyried ac felly nad oedd angen unrhyw gyfeiriad ysgrifenedig.

Cyfeiriodd yr Arweinydd at y trafodaethau yn y cyfarfod ynghylch y defnydd o Saesneg clir ac iaith a fformat clir ac y byddai'r mater yn cael ei ystyried ymhellach o dan Eitem 8 ar yr Agenda.

Wedi ystyried y cyfeiriad, penderfynwyd wedi hynny:

**PENDERFYNWYD – BOD** y drafodaeth yn y Pwyllgor Craffu Perfformiad Corfforaethol ac Adnoddau yn cael ei nodi ac y byddai'r mater yn cael ei ystyried ymhellach o dan Eitem 8 ar yr Agenda.

### Rheswm dros y penderfyniad

Gan ystyried cynnwys y cyfeiriad a thrafodaethau yn y cyfarfod.

## **C223 CYNLLUN ARFARNU PRIF SWYDDOGION – DIWYGIADAU ARFAETHEDIG (CYF) –**

*(Cafodd yr eitem hon ei symud i ddiwedd yr Agenda. Gadawodd yr holl Swyddogion cysylltiedig y cyfarfod ar gyfer yr eitem hon ac ystyriwyd yr eitem ar ddiwedd yr Agenda)*

Cyflwynwyd y cyfeiriad gan y Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol o 15 Chwefror 2023.

Dywedodd yr Arweinydd y bu trafodaeth fanwl ar y mater yn y Pwyllgor Craffu lle'r oedd rhai wedi cefnogi gwerthusiadau mwy rheolaidd a bu trafodaeth hefyd ynghylch adolygiadau gan gymheiriaid.

Wedi ystyried y cyfeiriad, penderfynwyd wedi hynny:

**PENDERFYNWYD –**

(1) BOD cynnwys y cyfeiriad yn cael ei nodi.

No.

(2) BOD y cynigion ar gyfer gwerthusiadau prif swyddogion yn cael eu cymeradwyo a'u cyfeirio at y Cyngor ar 6 Mawrth 2023 i'w cymeradwyo er mwyn cyflwyno'r cynllun newydd o 1 Ebrill 2023.

Rheswm dros y penderfyniadau

(1-2) Gan ystyried cynnwys y cyfeiriad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

**C224 ANHEDDAU GWAG Y DRETH GYNGOR: 2024/25 (AG/PA) (CRAFFU - PERFFORMIAD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL) –**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad, a'i ddiben oedd ceisio cymeradwyaeth i fabwysiadu polisi y Dreth Gyngor ar anheddau gwag ar gyfer 2023/24.

Cynigiodd yr Arweinydd rai newidiadau i deitl a diben yr adroddiad gan fod yr adroddiad yn argymhell codi premiwm ar eiddo gwag hirdymor o 2023/24 ac ail gartrefi o 2024/25, ond nid oedd teitl a diben yr adroddiad yn adlewyrchu'r dyddiadau hynny'n gywir.

Dylai teitl yr adroddiad nodi 'Y Dreth Gyngor ar Anheddau Gwag: 2023/24' a dylai diben yr adroddiad fod wedi darllen fel 'Ceisio cymeradwyaeth i fabwysiadu polisi y Dreth Gyngor ar eiddo gwag hirdymor o'r flwyddyn 2023/24 ac ar ail gartrefi o'r flwyddyn 2024/25 ymlaen'. Cytunwyd ar y newidiadau hyn gan y Cabinet.

Cytunodd y Cynghorydd Wilson fod tai a fu'n wag ers amser maith yn draul ar adnoddau'r Cyngor a'r awydd oedd cael pobl i fyw yn yr eiddo hynny. Byddai llai o bobl ar y rhestr aros am dai pe bai mwy o eiddo ar gael ac anogodd yr Aelodau yr oedd eiddo gwag yn eu wardiau i ddarganfod pam eu bod yn wag neu ofyn i Wasanaeth Gorfodaeth y Cyngor am gymorth a chefnogaeth.

Dywedodd yr Arweinydd ymhellach, y byddai'r mater, pe bai'n cael ei gymeradwyo, yn cael ei gyfeirio at y Cyngor Llawn i'w ystyried ar 6 Mawrth 2023.

Roedd hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor ei benderfynu.

Penderfynodd y Cabinet, ar ôl ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a'r goblygiadau a oedd ynddo ac ar ôl ystyried y diwygiadau i deitl a diben yr adroddiad

**PENDERFYNWYD –**

(1) BOD y Cabinet y cymeradwyo, ac yn argymhell bod y Cyngor yn cymeradwyo y dylid codi'r premiymau'r Dreth Gyngor a ganlyn:

- Codi premiwm o 100% ar y Dreth Gyngor yn 2023/24 mewn perthynas ag eiddo gwag hirdymor, premiwm o 150% yn 2024/25 a phremiwm o 200% yn 2025/26.
- Codi premiwm o 100% ar y Dreth Gyngor yn 2024/25 ar gyfer ail gartrefi.

No.

(2) BOD y Cabinet yn argymhell i'r Cyngor y dylid rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Pennaeth Cyllid i weithredu'r newidiadau ac i hysbysu perchnogion yr holl eiddo yr effeithir arnynt.

(3) BOD y Cabinet yn cymeradwyo ac yn argymhell i'r Cyngor y dylid rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Pennaeth Cyllid benderfynu ar geisiadau am eithriad o dan y rheoliadau fel y nodir ym mharagraff 5.5 yr adroddiad.

(4) BOD y Cabinet wedi cymeradwyo ac argymhell i'r Cyngor bod y Prif Weithredwr a'r Arweinydd yn adolygu'r premiymau hynny yn y blynyddoedd i ddod a dod â newidiadau i'r Cabinet a'r Cyngor i'w cymeradwyo fel y bo'n briodol.

#### Rhesymau dros benderfyniadau

(1) Roedd yn ofynnol i'r Cyngor benderfynu ar ei bolisi ar gyflwyno premiymau mewn perthynas ag ail gartrefi ac eiddo gwag hirdymor fel y'i diffinnir yn Adrannau 12A a 12B o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, fel y'i mewnosodwyd gan Ddeddf Tai (Cymru) 2014.

(2) Sicrhau bod yr holl gwsmeriaid yr effeithiwyd arnynt yn dilyn cyflwyno'r premiymau yn ymwybodol o'r newidiadau.

(3) Sicrhau bod trefniadau ar waith i ystyried eithriadau.

(4) Sicrhau bod premiymau a godwyd yn cael eu hadolygu'n gyson fel y bo'n briodol.

#### **C225 AMSERLEN CYFARFODYDD: MAI 2023 I MAY 2024 (AG/PA) (CRAFFU – DIM CRAFFU PERTHNASOL) –**

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet yr adroddiad, diben yr hwn oedd ystyried amserlen ddrafft ar gyfer cyfarfodydd yn y cyfnod o fis Mai 2023 i fis Mai 2024, gan gysylltu'r mater â'r eitem frys hwyr i'w hystyried yn ddiweddarach ar yr Agenda lle'r oedd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd wedi ystyried yr amserlen ac wedi cytuno ei bod yn addas.

Roedd hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith ei benderfynu.

Ar ôl ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a'r goblygiadau ynddo, daeth y Cabinet i'r casgliadau canlynol:

PENDERFYNWYD – BOD yr amserlen ar gyfer cyfarfodydd o fis Mai 2023 i fis Mai 2024 fel y'i nodir yn Atodiad A i'r Adroddiad, yn cael ei chymeradwyo yn amodol ar unrhyw newidiadau yn y dyfodol yn y trefniadau ar gyfer cyfarfodydd a ystyrir yn briodol gan Faer y Cyngor neu Gadeirydd y Pwyllgor/Cyfarfod perthnasol.

Rheswm dros y penderfyniad

Cymeradwyo / cyhoeddi calendr o gyfarfodydd ar gyfer blwyddyn ddinesig 2023/24.

**C226 CYNLLUN CYFLAWNI BLYNYDDOL DRAFFT CYNGOR BRO MORGANNWG 2023-24 (AG/PA) (CRAFFU - PERFFORMIAD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL) –**

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet yr adroddiad, a'i ddiben oedd ystyried drafft diwygiedig y Cynllun Cyflawni Blynyddol 2023-24 yn dilyn yr ymgynghoriad.

Roedd y cyfeiriad gan y Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol wedi'i ystyried yn gynharach ar yr Agenda.

Tynnodd yr Arweinydd sylw at yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar y Cynllun Cyflawni Blynyddol 2023-24 a restrir fel rhan o Atodiad B a'r camau a gymerwyd o ganlyniad i'r sylwadau a dderbyniwyd. Cyfeiriodd ymhellach at yr ymatebion i'r arolwg ar-lein ar dudalen 9 Atodiad B a nododd fod sylwadau wedi dod i law ond nad oedd cyfle wedi bod i drafod y sylwadau hynny yr oedd angen mynd i'r afael â hwy wrth symud ymlaen.

Roedd hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor ei benderfynu.

Ar ôl ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau ynddo, daeth y Cabinet i'r casgliadau canlynol:

**PENDERFYNWYD –**

- (1) BOD y Cynllun Cyflawni Blynyddol drafft wedi'i ddiweddarau (Atodiad A), yr adroddiad adborth ar yr ymgynghoriad (Atodiad B) a'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (Atodiad C) yn cael eu cymeradwyo.
- (2) BOD drafft diwygiedig y Cynllun Cyflawni Blynyddol wedi cael ei nodi gan y Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol ar 15 Chwefror 2023.
- (3) BOD y Cynllun Cyflawni Blynyddol drafft (Atodiad A) yn cael ei gymeradwyo a bod yr adroddiad a'r Atodiadau yn cael eu cyfeirio at y Cyngor ar 6 Mawrth 2023 i'w hystyried a'u cymeradwyo.
- (4) BOD y defnydd o'r weithdrefn penderfyniadau brys fel y'i nodir yn Adran 15.14 o Gyfansoddiad y Cyngor yn cael ei gymeradwyo er mwyn i'r Cynllun Cyflawni Blynyddol terfynol gael ei gyfeirio at y Cyngor Llawn ar 6 Mawrth 2023 i'w ystyried a'i gymeradwyo.

Rhesymau dros benderfyniadau

- (1) I alluogi'r Cabinet i ystyried yr adborth o'r ymgynghoriad, yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a'r newidiadau dilynol i'r Cynllun.
- (2) I alluogi'r Cabinet i ystyried sylwadau'r Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol fel rhan o'i waith yn ystyried y Cynllun.
- (3) I sicrhau y gellir cyflwyno'r Cynllun Cyflawni Blynyddol i'r Cyngor ym mis Mawrth i'w ystyried a'i gymeradwyo.
- (4) I ganiatáu i'r Cynllun Cyflawni Blynyddol gael ei gyfeirio at y Cyngor ar 6 Mawrth 2023 i'w ystyried a'i gymeradwyo.

**C227 COSTAU BYW Y CYFLOG BYW A CHYFRADDAU TÂL AR GYFER STAFF GRADD UN A DAU (AG/PA) (CRAFFU - PERFFORMIAD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL) –**

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet yr adroddiad, a'i ddiben oedd ceisio cymeradwyaeth i godi graddfeydd y cyflogau isaf (Gradd 1 a 2) er mwyn mabwysiadu'r gyfradd Cyflog Byw presennol o £10.90 yr awr.

Roedd hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor ei benderfynu.

Ar ôl ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau ynddo, daeth y Cabinet i'r casgliadau canlynol:

**PENDERFYNWYD –**

- (1) BOD y cynigion fel y'u nodir yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo fel bod y Cyngor yn mabwysiadu'r Cyflog Byw Gwirioneddol diweddaraf o £10.90 yr awr ar gyfer graddfeydd y cyflogau isaf (sef Gradd 1 a Gradd 2 sy'n cael eu talu £10.60 a £10.79 yr awr ar hyn o bryd) yn effeithiol o 1 Rhagfyr 2022.
- (2) Bod y Cabinet yn derbyn adroddiad pellach ar y dull o ddod yn gyflogwr achrededig Cyflog Byw yn chwarter un y flwyddyn ariannol newydd.

Rhesymau dros benderfyniadau

- (1) I adlewyrchu'r gyfradd Cyflog Byw Gwirioneddol ddiweddaraf a gyhoeddwyd ym mis Medi 2022.
- (2) I alluogi'r Cabinet i ystyried y dull o ddod yn gyflogwr achrededig Cyflog Byw maes o law.

No.

## **C228 ADRODDIAD MONITRO CYDRADDOLDEB BLYNYDDOL 2021-2022 (YGCGR) (CRAFFU – DYSGU A DIWYLLIANT) -**

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet yr adroddiad, a'i ddiben oedd ceisio cymeradwyaeth i'r Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Blynyddol.

Gofynnodd yr Aelod Cabinet i'r Cabinet gytuno i welliant i Argymhelliad (2) a hefyd i gyfeirio'r adroddiad i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol i'w ystyried, a chytunwyd i hyn.

Dywedodd y Cynghorydd Sivagnanam fod y Cyngor ar fin adnewyddu ac adolygu'r Cynllun Cydraddoldeb yn 2024 a'i bod am i'r ddogfen honno gael ei hymgorffori yn holl waith y Cyngor wrth symud ymlaen, ac i'r Cynllun gael ei graffu gan bob Pwyllgor Craffu wrth iddo ystyried themâu trawsbynciol ar draws yr Awdurdod er mwyn cyflawni'r ddyletswydd i fod yn gyfartal a theg.

Cytunodd yr Arweinydd â'r argymhelliad bod y Cynllun Cydraddoldeb yn mynd i bob Pwyllgor Craffu yn y dyfodol a diolchodd i'r holl grwpiau staff a fu'n ymwneud â'r gwaith ar y Cynllun am eu cyfraniadau.

Roedd hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith ei benderfynu.

Ar ôl ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau ynddo, daeth y Cabinet i'r casgliadau canlynol:

### **PENDERFYNWYD –**

- (1) BOD Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Blynyddol 2021 – 2022 fel y'i disgrifir yng nghorff yr adroddiad ac yn Atodiad A yn cael ei gymeradwyo.
- (2) BOD yr adroddiad yn cael ei gyfeirio at y Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant a'r Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol a bod unrhyw sylwadau yn cael eu cyfeirio yn ôl i'r Cabinet i'w hystyried a'u cynnwys yn fersiwn terfynol yr Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Blynyddol.

### **Rhesymau dros benderfyniadau**

- (1) I ganiatáu i'r Cyngor gyflawni ei ddyletswydd adrodd o dan y dyletswyddau penodol i Gymru a pharhau i wneud cynnydd tuag at gyflawni dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus wrth sicrhau bod ei waith cydraddoldeb ar gael i'w graffu gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ac eraill.
- (2) I alluogi'r Pwyllgorau Craffu i ystyried yr adroddiad a sicrhau ei fod yn cael ei gyhoeddi erbyn 31 Mawrth 2023 er mwyn cyflawni dyletswyddau statudol.

## **C229 HYB IECHYD PENARTH (HCL) (CRAFFU - BYW'N IACH A GOFAL CYMDEITHASOL)**

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet yr adroddiad, a'i ddiben oedd ceisio cymeradwyaeth i Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro fwrw ymlaen â'r Hyb Iechyd arfaethedig yng Nghanolfan Hamdden Penarth.

Dywedodd yr Aelod Cabinet y byddai'r Hyb Iechyd o fudd enfawr i drigolion Bro Morgannwg ac roedd yn gobeithio gallu datblygu cyfleusterau pellach yn ardal orllewinol y Fro ac yn y Fro wledig hefyd.

Dywedodd yr Arweinydd ei fod yn fodel pwysig a fyddai'n helpu i wella iechyd y gymuned a diolchodd i'r Aelod Cabinet am ei waith ar hyn ac ar gynigion pellach ar gyfer hybiau posibl eraill ym Mro Morgannwg.

Roedd hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith ei benderfynu.

Ar ôl ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau ynddo, daeth y Cabinet i'r casgliadau canlynol:

### **PENDERFYNWYD –**

- (1) BOD y cais gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro i adeiladu hyb iechyd newydd gerllaw Canolfan Hamdden Penarth yn cael ei gymeradwyo yn amodol ar benderfyniadau (3) a (4).
- (2) BOD Cyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai, mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet dros Hamdden, Chwaraeon a Lles a'r Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol, yn cael yr awdurdod i ymrwymo i brydles o 125 mlynedd gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ar delerau ac amodau i'w cytuno, yn amodol ar benderfyniadau (3) a (4).
- (3) BOD awdurdod yn cael ei ddirprwyo i'r Swyddog Monitro / Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democraidd i hysbysebu'r gwarediadau arfaethedig yn unol ag adran 123(2A) Deddf Llywodraeth Leol 1972 ac yn unol â Rheoliadau Caeau Chwarae (Ymgysylltiad Cymunedau â Phenderfyniadau Gwaredu) (Cymru) 2015.
- (4) BOD unrhyw wrthwynebiadau i werthu'r tir arfaethedig yn cael eu hadrodd i'r Cabinet i'w hystyried. Os na fydd gwrthwynebiadau'n cael eu cyflwyno, bydd y mater yn mynd rhagddo yn unol â phenderfyniadau (1), (2), (5) a (6).
- (5) BOD y Swyddog Monitro / Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democraidd / Rheolwr Gweithredol y Gwasanaethau Cyfreithiol mewn ymgynghoriad â'r Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol a Chyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai yn cael ei awdurdodi i baratoi, gweithredu a chwblhau unrhyw gytundebau cyfreithiol sy'n gysylltiedig â gwerthu'r tir.



No.

(6) BOD Cyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai yn cael ei awdurdodi i drafod a chwblhau Cytundeb Rheoli rhwng y Cyngor, Parkwood Leisure a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro cyn i'r gwaith adeiladu ddechrau.

#### Rhesymau dros benderfyniadau

- (1) I wella ansawdd y ddarpariaeth iechyd yn ardal Penarth.
- (2) I sicrhau bod y gwaith o drosglwyddo'r tir sydd ei angen ar gyfer y cynnig hwn yn cael ei gyflawni'n effeithiol ac effeithlon.
- (3) I ganiatáu i'r tir sydd ei angen ar y Bwrdd Iechyd gael ei hysbysebu i'w waredu yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol.
- (4) I ganiatáu i'r Cabinet ystyried unrhyw wrthwynebiadau a gaiff eu derbyn cyn gwneud penderfyniad ar drosglwyddo tir.
- (5) I roi'r awdurdod angenrheidiol i swyddogion gytuno ar y telerau a'r amodau i ganiatáu i'r tir gael ei drosglwyddo drwy brydles cyn gynted â phosibl.
- (6) I ddiffinio'r cyfrifoldebau rheoli yn glir ar gyfer y gwaith o weithredu'r adeilad newydd ar y cyd.

#### **C230 MATER OEDD Y CADEIRYDD WEDI PENDERFYNU YN FRYS –**

PENDERFYNWYD – BOD y mater canlynol yr oedd y Cadeirydd wedi penderfynu arno ystyried y rheswm a roddwyd o dan bennawd y cofnodion.

#### **C231 ADRAN 6 O FESUR LLYWODRAETH LEOL (CYMRU) 2011 – AMSERIAD CYFARFODYDD CYNGOR (CYF) –**

**(Matter which the Chair had decided was urgent in order to consider the Resolutions of the Democratic Services Committee in conjunction with Agenda Item 7 “Timetable of Meetings: May 2023 to May 2024”).**

**(Mater yr oedd y Cadeirydd wedi penderfynu ei fod yn fater brys er mwyn ystyried Penderfyniadau'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar y cyd ag Eitem Agenda 7 “Amserlen Cyfarfodydd: mis Mai 2023 i fis Mai 2024”).**

*(Ystyriwyd yr eitem hon cyn Eitem 7 ar yr Agenda)*

Cyflwynwyd y cyfeiriad gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd o 13 Chwefror 2023. Roedd y cyfeiriad hwn yn ystyried yr amserau a'r cyfnodau yr oedd cyfarfodydd Awdurdod Lleol yn cael eu cynnal.

Tynnodd yr Arweinydd sylw at y trafodaethau a oedd wedi'u cynnal ynghylch amrywio neu gylchdroi amser cychwyn cyfarfodydd a'r dewis o gynnal cyfarfodydd hybrid neu o bell, yn ogystal â manteision ag anfanteision gwneud hyn. Roedd

No.

rhai Aelodau wedi mynegi pryder ynghylch eu hól troed carbon ac y byddai mynychu cyfarfodydd o bell yn gymorth i reoli hyn.

O ran argymhellion y Pwyllgor, cyfeiriodd yr Arweinydd at y ffaith nad oedd un cyfnod o amser penodol ar gyfer hyd cyfarfodydd yn cael ei argymhell, gan dderbyn mai penderfyniad Cadeirydd Pwyllgor fyddai pennu hyd y cyfarfod. Nododd fod dau gyfarfod wedi'u cynnal yr wythnos hon a oedd wedi parhau am tua phum awr yr un, ond dylid adolygu hyn yn barhaus i sicrhau bod yr Aelodau'n parhau i ymgysylltu â chynnwys y cyfarfod. Dywedodd yr Arweinydd y dylai holl Aelodau'r Cyngor eisoes fod yn cael gwybod am y rhesymau pan fyddai dyddiadau ac amseroedd cyfarfodydd Pwyllgorau'r Cyngor yn newid ond y byddai hyn hefyd yn cael ei fonitro.

Dywedodd y Cynghorydd Sivagnanam fod cyfarfodydd hybrid o fudd i'r rhai oedd â chyfrifoldebau allanol, megis cyfrifoldeb gofal neu ofal plant, neu'r rhai a oedd yn byw ymhell o leoliad y cyfarfod. Roedd y trefniadau ar gyfer cael mynediad digidol o ganlyniad i'r pandemig wedi bod yn gam cadarnhaol a oedd o fudd i nifer o'r Aelodau ac roedd yn fater cydraddoldeb mewn gwirionedd.

Dywedodd y Cynghorydd Wilson fod yna ddemograffeg dda o Gynghorwyr ym Mro Morgannwg a bod cael cyfarfodydd gyda'r nos wedi helpu nifer i allu mynychu hyd yn oed os oedd ganddynt ymrwymadau eraill.

Wedi ystyried y cyfeiriad, penderfynwyd wedi hynny:

**PENDERFYNWYD –**

- (1) BOD y cyfeiriad gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn cael ei nodi.
- (2) BOD yr adroddiad a'r atodiadau yn cael eu hanfon at Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgor Craffu er gwybodaeth ac i'w hystyried.

Rheswm dros y penderfyniadau

- (1-2) Gan ystyried cynnwys y cyfeiriad a thrafodaethau yn y cyfarfod.